

**Cynulliad Cenedleathol Cymru**
Materion Ewropeaidd

Cynhyrchwyd gan swyddfa'r UE
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Rhifyn 20_Medi/Hydref 2010

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

## Cyflwyniad

Mae'n bleser gennyf eich cyflwyno i'r 20fed rhifyn o Materion Ewropeaidd, ein bwletin rheolaidd ar waith Cynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas â materion Ewropeaidd.

Mae llygad y byd wedi bod ar Gymru yn yr wythnosau diwethaf wrth i 10 mlynedd o waith cynllunio gyrraedd ei uchafbwynt i wahodd 38fed cystadleuaeth Cwpan Ryder i Gymru. Y twrnament hwn yw'r unig ddigwyddiad chwaraeon lle caiff Ewrop ei chynrychioli fel un tîm, yn y gystadleuaeth gydag UDA a gynhelir bob dwy flynedd. Yr oedd Cymru a Chanolfan Celtic Manor yng Nghasnewydd yn eithriadol o falch cael croesawu'r twrnament unigryw a byd-enwog hwn i Gymru.

Denodd Cwpan Ryder nifer o enwogion amlwg, ac yr oedd Cadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor yn arbennig o falch cael croesawu Arlywydd y Comisiwn Ewropeaidd, José Manuel Barroso, i'r Senedd ar ei ffordd i'r seremoni agoriadol yng Nghasnewydd. Yn ystod ei ymweliad cyntaf â Chymru, gwelodd yr Arlywydd drosto'i hun y buddiannau sydd wedi dod i Gymru yn sgil Cronfeydd Strwythurol yr UE, a bydd wedi cael neges glir am bwysigrwydd cynnal Polisi Cydlyniant ledled yr UE yn y dyfodol, er mwyn sicrhau amcanion trosfwaol Ewrop 2020 mewn gwledydd fel Cymru.

Mae'r Arolwg o Gyllideb Ewrop a'r Pumed Adoddiad ar Gydlyniant, yn ogystal â phrif fentrau dan Strategaeth Ewrop 2020, i gael eu cyhoeddi yn ystod yr hydref eleni. Byddwn yn dilyn y datblygiadau hyn y fanwl yn y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol. Ar 21 Medi rhoddodd Syr Kim Darroch, Llysgennad y DU yn yr UE, ei farn i'r Pwyllgor am y modd y bydd y materion hyn yn datblygu yn ystod y misoedd i ddod ac yn ystod 2011-12. Cawsom hefyd fwletin gan Aelodau Cymru o Senedd Ewrop, Jill Evans a Derek Vaughan, yn yr un cyfarfod.

Ym mis Hydref bydd y Pwyllgor yn lansio ymchwiliad i gyfranogiad gan gyrff o Gymru yn Rhaglenni Ariannu'r UE sy'n cefnogi dysgu gydol oes, ymchwil ac arloesi. Cyhoeddwyd cais cyffredinol am dystiolaeth ysgrifenedig ar 4 Hydref, ac ar 5 Hydref cawsom y set gyntaf o dystiolaeth gan y Cyngor Prydeinig, sef yr asiantaeth genedlaethol sy'n gweinyddu nifer o raglenni'r UE sy'n cefnogi symudedd mewn addysg a dysgu gydol oes i bobl ifanc yn y DU. Clywsom hefyd gan Gyfarwyddwr Cyffredinol yr Undeb Ewropeaidd dros Addysg a Diwylliant am eu menter newydd Ieuenctid ar Droed (Youth on the Move).

Mae'n bleser gennyf hefyd adrodd bod Aelodau o Is-bwyllgor Datblygu Gwledig y Cynulliad wedi bod ym Mrwsel ym mis Medi i gyflwyno'i negeseuon i chwaraewyr allwedol yn y ddadl dros ddyfodol y Polisi Amaethyddol Cyffredin. Bydd gan Senedd Ewrop ran bwysig yn y gwaith o lunio dyfodol y polisi hwn. Dan Gytuniad Lisbon, caiff hwnnw nawr ei gytuno drwy'r drefn cyd-benderfynu.

Ar 16 Medi ymunais â chyfreithwyr ac academyddion o wahanol aelod-wladwriaethau'r UE i siarad yng nghynhadledd flynyddol Canolfan Llywodraethiant Cymru– 'Mater o Sybsidiaredd', yn y Pierhead ym Mae Caerdydd. Roedd Cytuniad Lisbon yn bwnc trafod mewn seminar arall a gynhaliwyd yn y Pierhead ar 30 Medi, y tro hwnnw wedi ei threfnu gan Swyddfa Senedd yr UE yn y DU. Roedd pob un o bedwar Aelod Cymru o Senedd Ewrop yn bresennol yn y digwyddiad.

Ar 20 Medi traddodais y brif araith yng Nghynhadledd Diwrnodau Agored Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar 'Dyfodol Ariannu Cystadleurwydd yr UE' yn Llandrindod. Roedd y digwyddiad yn gyfle i'w groesawu i roi sylw penodol i barhad

ariannu Cystadleurwydd Rhanbarthol a Chyflogaeth ar ôl 2013, a rôl hanfodol hynny wrth gyflawni amcanion Strategaeth Ewrop 2020. Roedd y casgliadau yn y Gynhadledd yn adlewyrchu ein hadroddiad Pwyllgor ar y mater hwn a gyhoeddwyd ar 7 Gorffennaf. Roedd hwnnw'n rhoi barn unedig gan yr holl bleidiau gwleidyddol yng Nghymru am bwysigrwydd sicrhau bod ariannu cystadleurwydd yn parhau.

Yn olaf, roedd yn bleser mawr hefyd i mi Gadeirio'r Ffug Gyngor Ewropeaidd yn Siambr Hywel, sef siambr ddadlau pobl ifanc yn y Senedd. Hoffwn ddiolch i'r holl bobl ifanc a'r ysgolion a gymerodd ran yn y diwrnod cofiadwy hwnnw.

**Rhodri Morgan AC**
**Cadeirydd y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol**



Rhodri Morgan AC yn cyfarch José Manuel Barroso, Arlywydd y Comisiwn Ewropeaidd, ynghyd â'r Arglwydd Dafydd Elis-Thomas AC, Llywydd y Cynulliad a Ieuan Wyn Jones AC, y Dirprwy Brif Weinidiog.



Myfyrwyr a gymerodd ran yn Ffug Gyngor yr UE yn y Senedd, ynghyd ag Andy Klom, Pennaeth Swyddfa'r Comisiwn Ewropeaidd yng Nghymru.

## Pynciau'n gysylltiedig â'r UE ym Mhwyllgorau'r Cynulliad

### Y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol

– **Cyllideb yr UE a dyfodol Polisi Cydlyniant yr UE:** Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Syr Kim Darroch, Llysgennad yr UE yn y DU, yng nghyd-destun y ddadl sydd i ddod ar Gyllideb yr UE.

– **Llywyddiaeth Gwlad Belg o'r UE:** Rhoddodd Ei Uchelder Johan Verbeke, Llysgennad Gwlad Belg yn yr UE, y manylion diweddaraf am y cynnydd gyda blaenoriaethau llywyddiaeth Gwlad Belg yn y cyfarfod ar 5 Hydref.

– **Strategaeth Ewrop 2020:** Cynhaliodd y Pwyllgor sesiwn dystiolaeth gyda Mr Jan Truszczyński, Cyfarwyddwr Cyffredinol y Gyfarwyddiaeth Addysg a Diwylliant, am fenter flaenllaw newydd Ieuenctid ar Droed (Youth on the Move) a gyhoeddwyd gan y Comisiwn ym mis Medi.

– **ASEau Cymru:** ar 21 Medi, cafodd y Pwyllgor fwletinau gan ASE Cymru am eu gwaith yn Senedd Ewrop. Cymerwyd rhan gan Derek Vaughan a Jill Evans, ac roedd Dr Kay Swinburne a John Bufton yn methu bod yn bresennol oherwydd ymrwymiadau yn Senedd Ewrop.

– **Rhaglenni ariannu eraill yr UE:** cytunodd y Pwyllgor i gynnal ymchwiliad yn canolbwyntio ar raglenni ariannu'r UE (heb gynnwys cronfeydd strwythurol a datblygu gwledig) i gefnogi dysgu gydol oes, arloesedd ac ymchwil. Cynhaliwyd y sesiynau cyntaf i glywed tystiolaeth ar 5 Hydref, a bwriedir cynnal sesiynau tystiolaeth pellach ym mis Hydref a mis Tachwedd. Mae galwad wedi ei gwneud am dystiolaeth ysgrifenedig, a dyddiad cau ar 12 Tachwedd ar gyfer cyflwyno.

– **Pwyllgor y Rhanbarthau:** ar 21 Medi rhoddodd Christine Chapman AC a Rhodri Glyn Thomas AC y wybodaerh ddiweddaraf am waith Pwyllgor y Rhanbarthau, ynghyd â chynrychiolwyr o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

### Y Pwyllgor Menter a Dysgu

– **Cynhyrchu swyddi yn yr Economi Werdd:** cyhoeddwyd adroddiad yr ymchwiliad hwn ym mis Gorffennaf, a bwriedir cael dadl arno yn y cyfarfod llawn ar 13 Hyrdref.

– **Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth:** trafodwyd yr adroddiad drafft o'r ymchwiliad hwn ar 24 Mehefin.

– **Sgiliau Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg:** bydd ymchwiliad byr yn dechrau yn yr hydref, a thystiolaeth yn debygol o gael ei chyflwyno ar yr arfer gorau o fewn yr UE.

### Y Pwyllgor Cynaliadwyedd

– **Bioamrywiaeth:** mae'n fwriad gan y Pwyllgor gynnal ymchwiliad o dargedau bioamrywiaeth yng Nghymru, gan gymryd i ystyriaeth yr ymgynghori a lansiwyd gan y Comisiwn Ewropeaidd fel rhan o arolwg o dargedau ar lefel yr UE.

### Yr Is-Bwyllgor Datblygu Gwledig

– **Y Polisi Amaethyddol Cyffredin yn y dyfodol:** bu'r Is-Bwyllgor ym Mrwsel ar 15-16 Medi i hyrwyddo'r adroddiad o'i ymchwiliadi i'r PAC yn y dyfodol, ac i drafod y camau nesaf gyda phobl allweddol. Cyfarfu'r Is-Bwyllgor â Paolo de Castro ASE, Cadeirydd y Pwyllgor Amaethyddiaeth yn Senedd Ewrop, ASE Cymru, Cabinet y Comisiynydd Amaethyddiaeth Cioloș a swyddogion o ranbarthau ac aelod-wladwriaethau'r UE. Cyfarfu'r Is-Bwyllgor hefyd â'r Gyfarwyddiaeth Iechyd a Materion Defnyddwyr i drafod cynigion ar gyfer rheolau newydd ar dyfu cnydau GM.

## Gweithgareddau allanol Aelodau mewn perthynas â busnes y Cynulliad

– Ar 20 Medi, roedd **Rhodri Morgan AC** yn siaradwr allweddol yng Nghynhadledd Diwrnodau Agored Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar 'Dyfodol Ariannu Cystadleurwydd yr UE' yn Llandrindod. Roedd **David Melding AC** yn Gadeirydd trafodaeth banel yn ystod y dydd, a siaradodd **Jeff Cuthbert AC** yn ei swydd fel Cadeirydd Pwyllgor Monitro Rhaglenni Cymru Gyfan.

– Cynrychiolwyd Cynulliad Cenedlaethol Cymru gan **Janet Ryder AC** yn 56ed Cynhadledd Seneddol y Gymanwlad yn Nairobi, Kenya o 10 i 19 Medi. Rhoddodd araith allweddol hefyd yng Nghynhadledd Seneddol Merched y Gymanwlad, lle bu'n trafod stategaethau i wella cyfranogiad merched mewn seneddau, gan dynnu sylw at enw da Cymru yn y maes hwn. Ar ôl y gynhadledd ymwelodd Janet Ryder â Senedd Uganda, lle cafodd gyfarfod â'r Dirprwy Lefarydd, Rebecca A Kadaga AS, fel rhan o'i rhaglen.

– Ar 5 Hydref cadeiriodd **Christine Chapman AC** seminar ar arloesi rhanbarthol yn ystod wythnos Diwrnodau Agored y Rhanbarthau ym Mrwsel. Yn ystod yr ymweliad, bu Christine Chapman hefyd yng nghyfarfod llawn Pwyllgor y Rhanbarthau (o 4 i 6 Hydref), a siaradodd yng nghyfarfod swyddfa wleidyddol Pwyllgor y Rhanbarthau yn ei swydd fel un o ddau gydlynydd gwleidyddol Llwyfan Monitro Ewrop 2020.

– Ar 5 Hydref bu'r **Dirprwy Lywydd, Rosemary Butler AC**, yng nghyfarfod Pwyllgor Sefydlog a chyfarfod llawn blynyddol Cynhadledd Cynulliadau Deddfwriaethol Rhanbarthol Ewrop (CALRE), wedi ei drefnu gan Lywyddiaeth CALRE yn Trento yn yr Eidal.

– O 17 i 23 Hydref bydd **Alan Davies AC a Veronica German AC** yn cynrychioli Cangen Cymru o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad yn Seminar Seneddol Canada y Gymdeithas a fydd yn digwydd yn Ottawa.

– Ar 29 Hydref mae **Rhodri Glyn Thomas AC** i fynd i gyfarfod o weithgor traws-bleidiol Pwyllgor y Rhanbarthau ar Gyllideb yr UE yn y dyfodol.

## Ymwelwyr rhyngwladol ac ymwelwyr pwysig eraill â'r Senedd

– Ar 17 Medi bu **Tommaso Leonardi**, cyfreithiwr o Ranbarth Trento yn yr Eidal, sy'n Llywydd presennol CALRE, sef y rhwydwaith Ewropeaidd o seneddau a deddfwrfeydd rhanbarthol, yn siarad mewn cynhadledd ar sybsidiaredd wedi ei threfnu gan Ganolfan Llywodraethiant Cymru yn y Pierhead.

– Ar 30 Medi ymwelodd y **Dirprwy Brif Weinidog Nick Clegg AS**, â'r Senedd a chafodd ei dywys o gwmpas gan y Llywydd yr Arglwydd Dafydd Elis-Thomas AC. Cyfarfu ag arweinyddion Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Kirsty Williams AC, a'r Ceidwadwyr Cymreig, Nick Bourne AC.

– Ar 30 Medi croesawyd **Arlywydd y Comisiwn Ewropeaidd, José Manuel Barroso**, i'r Senedd gan y Llywydd, a bu mewn seminar wedi ei threfnu gan y Cynulliad a Swyddfa'r Comisiwn Ewropeaidd ar gyfranogiad Cymru yng Nghronfeydd Stwythurol yr UE. Ymhlith y rhai a oedd yn bresennol roedd pedwar Aelod Cymru o Senedd Ewrop.

– Ar 30 Medi bu **pedwar Aelod Cymru o Senedd Ewrop** a'r Llywydd yn siarad mewn seminar yn y Pierhead wedi ei threfnu gan Swyddfa'r Senedd Ewropeaidd yn y DU ar oglybiadau Cytuniad Lisbon i Gymru.

– Ar 5 Hydref bu **Ei Ardderchowgrwydd Mr Johan Verbeke, Llysgennad Gwlad Belg yn y DU**, yng nghyfarfod y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol. Yn ystod ei daith cafodd weld y Senedd fel rhan o raglen ehangach wedi ei threfnu gan Lywodraeth Cynmru.

– Ar 6 Hydref ymwelodd **Brenhines Lesotho** â'r Senedd. Croesawyd hi gan y Llywydd, a drefnodd ginio i anrhydeddu Ei Mawrhydi, ynghyd â chynrychiolwyr pob un o'r prif bleidiau gwleidyddol, sef John Griffiths AC, Janet Ryder AC, David Melding a Kirsty Williams AC. Bu Ei Mawrhydi hefyd yn y sesiwn lawn yn y prynhawn, cyn cael cyfarfod â'r Prif Weinidog.



Yr Arglwydd Dafydd Elis-Thomas AC, Llywydd y Cynulliad, gyda Brenhines Lesotho.

**Lincs**
– Hafan Cynulliad Cenedlaethol Cymru
– Hysbysiad Busnes y Cynulliad
– Tudalennau'r Pwyllgorau
– Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau

**Am ragor o wybodaeth**–

**Cysylltwch â:**
Gregg Jones, Pennaeth y Swyddfa (**Gregg.Jones@wales.gsi.gov.uk**)
Swyddfa UE Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad)
Tŷ Cymru
6th Floor
Rond Point Schuman 11
1040 Bruxelles
Belgium
Ffôn: 0032 2 226 66 92
Mobile: 0044 (0) 7816 164 455

Neu
Tîm Cysylltiadau Rhyngwladol Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Cysylltiadau Allanol
Tŷ Hywel (3ydd Llawr)
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA
Ffôn: 0044 (0)29 2089 8642/8897
**archebu@cymru.gsi.gov.uk**

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Rydym yn anfon yr e-bost hwn atoch gan ein bod yn credu y bydd o ddiddordeb i chi. Os nad ydych am i ni anfon rhifynnau eraill o'r cylchlythyr atoch, neu os nad ydych wedi cael yr e-bost hwn yn uniongyrchol ac yn awyddus i ni ychwanegu'ch enw at y rhestr bostio, anfonwch e-bost at Gregg Jones.